TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 28 Mehefin 2021

## Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

*"All Trafnidiaeth Cymru ddarparu dadansoddiad o nifer a chyfran y staff mewn swyddi rheoli sy'n gweithio i Trafnidiaeth Cymru sy'n dod o gefndir BAME?"*

**Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

Gweler y tabl isod sy'n amlinellu dadansoddiad o Darddiad Ethnig ein gweithwyr. Y gweithwyr sy'n gyfrifol am ddarparu'r wybodaeth hon. Nid ydym yn gofyn am wybodaeth sensitif yn ystod y cam ymgeisio am swydd, nac wrth lenwi dogfennau gweithwyr newydd gyda'n gweithwyr. Yn hytrach, mae ein gweithwyr yn dewis llenwi eu gwybodaeth sensitif ar ôl iddynt ymuno â'r sefydliad. Sylwch nad yw hwn yn ofyniad gorfodol. Fel y gwelwch o'r data a ddarparwyd, nid yw'r rhan fwyaf o'n gweithwyr wedi rhoi'r wybodaeth hon i ni. Am y rheswm hwn hefyd, dim ond data sy'n cynrychioli'r sefydliad cyfan sydd gennym, yn hytrach na data sy'n benodol i'r rheini sydd mewn swyddi rheoli.

| Tarddiad Ethnig | Dyn | Merch | Heb nodi rhywedd | Nifer y gweithwyr |
|---|---|---|---|---|
| Affricanaidd | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Unrhyw gefndir Cymysg arall | 2 | 0 | 0 | 2 |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall | 3 | 1 | 0 | 4 |
| Unrhyw grŵp ethnig arall | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Prydeinig | 120 | 75 | 0 | 195 |
| Caribïaidd | 1 | 1 | 0 | 2 |
| Heb ei Nodi | 1 | 5 | 0 | 6 |
| Gwyn ac Asiaidd | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Heb roi'r wybodaeth | 191 | 110 | 3 | 304 |

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.
Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".